Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Morgan Llwyd

**Ffordd Cefn**
**Wrecsam**
**LL13 9NG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Morgan Llwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Morgan Llwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 857 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 763 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 80 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y sector Uwchradd dros y tair blynedd diwethaf yw 18.5%) | 16.0% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Uwchradd yw 23.0%) | 18.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 22.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 23/04/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 01/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/10/2022 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth, uwch reolwyr a staff Ysgol Morgan Llwyd yn rhoi blaenoriaeth amlwg i gefnogi lles holl gymuned yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn meithrin perthynas glòs a chynhaliol â'r disgyblion ac mae hyn yn llwyddo i greu awyrgylch deuluol a gofalgar.

Elfen nodedig o'r ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi datblygiad dysgu a lles disgyblion. Mae'r 'Hwb Dysgu' a'r 'Hwb Bugeiliol' yn cynnig mannau tawel, ysgogol i ddisgyblion weithio gyda chymorth athrawon neu dderbyn cymorth lles pwrpasol. O ganlyniad i ddefnydd helaeth o'r ddau 'Hwb', mae llawer o ddisgyblion yn elwa'n academaidd neu'n gymdeithasol dros amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn waraidd ac yn dangos parch at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn gyfeillgar. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn gweld pwysigrwydd parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod werthfawr o brofiadau dysgu pwrpasol a chyrsiau perthnasol i ddisgyblion o bob oed. Mae'r gwersi 'Prosiectau' ar gyfer disgyblion iau yn rhoi profiadau gwerthfawr a chyfle iddynt gydweithio ar nifer o feysydd diddorol fel gwleidyddiaeth. Yn ogystal â datblygu eu medrau llythrennedd a rhif, mae hyn yn annog eu creadigrwydd ac yn hybu eu medrau gweithio'n annibynnol. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion iau ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy'r gwersi iechyd a lles. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu'r holl fedrau ar draws yr ysgol yn ddigon strategol.

Yn y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol. Yn yr achosion gorau, lle mae addysgu yn gadarn ac yn fwyaf llwyddiannus, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn. Serch hynny, nid yw'r arferion cryf mewn addysgu yn gyffredin ar draws yr ysgol. Mae diffygion yng nghynllunio a chwestiynu lleiafrif o athrawon yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn datblygu eu gallu i arfarnu ansawdd ac effaith eu gwaith yn gynyddol. Bellach mae trefniadau sicrhau ansawdd clir a chynhwysfawr wedi eu sefydlu. Fodd bynnag, nid yw gallu arweinwyr i adnabod cryfderau a diffygion mewn dysgu ac addysgu wedi'i ddatblygu'n llawn i'w galluogi i adnabod yn union pa feysydd sydd angen eu gwella a'u blaenoriaethu.

Mae'r llywodraethwyr a'r holl staff yn ymfalchïo yn yr ysgol ac yn arddel ei phwysigrwydd fel unig ysgol uwchradd Gymraeg y sir. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion gymdeithasu mewn clybiau amrywiol dros amser cinio neu ar ôl ysgol. Serch hyn, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n strategol i sicrhau cyfleoedd cyd-gysylltiedig i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i wersi. Yn ogystal, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion y chweched dosbarth ddatblygu profiadau personol buddiol trwy arwain gweithgareddau neu fentrau a, thrwy hyn, ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddisgyblion iau.

Mae trefniadau diogelu plant yn briodol ac mae'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae safle'r ysgol yn eang ac yn agored ac mae ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn sgil hyn yn achos pryder.

## Argymhellion

A1 Lledaenu'r arferion da mewn addysgu er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol

A2 Gwella'r cynllunio strategol ar gyfer y medrau, ABCh a chyfleoedd i ddatblygu a dathlu'r Gymraeg

A3 Cryfhau gallu arweinwyr ar bob lefel i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn y dysgu a'r addysgu

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Rydym wedi gofyn i'r ysgol ddarparu astudiaeth achos ar effaith y gefnogaeth i ddatblygiad lles ac academaidd disgyblion trwy'r 'Hwb Bugeiliol' a'r 'Hwb Dysgu'.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth bynciol. Yn y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda i gyd-destun newydd. Mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu'n gryf ac effeithiol iawn, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth yn fedrus wrth ymgymryd â thasgau a chyd-destunau newydd gan wneud cysylltiadau uniongyrchol â'r hyn y maent wedi'i ddysgu'n flaenorol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd araf ac nid ydynt yn datblygu eu medrau pwnc na'u gwybodaeth yn ddigon cadarn. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffygion yng nghynllunio'r athrawon neu yng ngallu'r disgyblion i fynegi eu hunain yn eglur yn estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ystyriol ar gyflwyniadau gan eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu hunain yn addas yn y Gymraeg gyda rhugldeb derbyniol, ystod briodol o eirfa pwnc a chystrawen eglur. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn huawdl ac mae ganddynt afael feistrolgar ar ystod eang o dermau pwnc a geirfa gyffredinol soffistigedig. Er enghraifft, yn y gwersi Cymraeg, mae ychydig o ddisgyblion yn rhoi esboniadau llafar estynedig gan ddefnyddio geirfa gyfoethog ac eang wrth ddadansoddi arddull cerdd 'Y Môr' gan Einir Jones. Fodd bynnag, mae geirfa gyfyngedig a diffyg cywirdeb iaith ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn golygu eu bod yn cael trafferth cyfleu eu syniadau'n eglur yn y Gymraeg. Drwyddi draw, mae lleiafrif y disgyblion yn tueddu i gynnig atebion llafar byr, heb eu datblygu'n llawn neu'n defnyddio geirfa Saesneg wrth ateb a thrafod. Yn aml, mae hyn oherwydd nad oes ganddynt ystod ddigon eang o eirfa i gyfleu eu hunain yn llawn neu oherwydd natur y cwestiynu gan yr athro.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen buddiol wrth gywain gwybodaeth a lleoli ffeithiau mewn testunau estynedig. Er enghraifft, yng ngwersi'r dyniaethau, maent yn casglu gwybodaeth berthnasol mewn darnau ysgrifenedig wrth ystyried pwy oedd ar fai am suddo'r Titanic. Mae mwyafrif y disgyblion uwch eu gallu yn fedrus wrth gywain gwybodaeth berthnasol o ystod o destunau a chrynhoi'r dystiolaeth i ddod i gasgliadau synhwyrol. Yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn uwch fedrau darllen wrth ddadansoddi arddull, adnabod technegau iaith a dyfeisiadau rhethreg gan ystyried eu heffaith ar y darllenydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dadansoddi sut a pham mae'r dramodydd yn darlunio rhai cymeriadau mewn modd cadarnhaol yn y ddrama 'An Inspector Calls' ac yn adnabod ei dechnegau i ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa. Er bod disgyblion yn datblygu medrau darllen buddiol mewn ychydig o bynciau ac eithrio Cymraeg a Saesneg, nid ydynt yn datblygu'r rhain i'r un graddau mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn synhwyrol gan ddefnyddio paragraffau, is-benawdau a thablau, lle bo hynny'n briodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n lled rugl yn y Gymraeg mewn arddull addas at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth

ddigonol o reolau gramadegol ac ystod briodol o eirfa i'w galluogi i gyfleu eu syniadau neu i rannu gwybodaeth yn eglur. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o eirfa a chystrawen neu ymadroddion soffistigedig yn eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae cystrawen letchwith, gwallau gramadegol a geiriau Saesneg yn britho gwaith ysgrifenedig lleiafrif y ddisgyblion. Drwyddi draw, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn y Saesneg, gyda lefel dda o eglurder a geirfa briodol, er enghraifft wrth baratoi anerchiad apelgar i ddenu cefnogaeth i elusen o'u dewis. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu cyson yn y ddwy iaith.

Mae gan lawer o ddisgyblion afael cryf ar fedrau rhif sylfaenol ac maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o hyn heb droi at gyfrifiannell yn ormodol. Yn eu gwersi mathemateg, mae'r mwyafrif yn adalw eu gwybodaeth o dablau lluosi, ffactorau a rhifau cysefin wrth gwblhau tasgau fel defnyddio dull cynnig a gwella gyda rhifau cyfan i ddatrys hafaliadau ciwbig, a chwblhau cwestiynau sy'n gynyddol heriol. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau rhif mewn ychydig iawn o bynciau ac eithrio mathemateg. Er enghraifft, maent yn defnyddio hafaliadau er mwyn cyfrifo gwrthiant mewn gwifren, bwlb a deuod yn y gwersi gwyddoniaeth. Serch hyn, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhif mewn amrediad eang o gyd-destunau ar draws pynciau perthnasol eraill.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol ar draws y pynciau wrth wneud gwaith ymchwiliol neu greu cyflwyniadau. Mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau digidol. Er enghraifft, maent yn datblygu medrau cynhyrchu buddiol wrth addasu a golygu fideos gan arbrofi â'r cyflymder, lliwiau, sain ac effeithiau arbennig.

Mewn lleiafrif o bynciau, lle mae cyfleoedd buddiol iddynt weithio'n annibynnol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau meddwl a medrau datrys problemau. Er enghraifft, yn y gwersi busnes, mae disgyblion yn ystyried a disgrifio strategaethau y mae cwmnïau yn eu defnyddio i dargedu cwsmeriaid gwahanol. Mae disgyblion yn arddangos medrau dadansoddol o safon uchel wrth werthuso genre ffilmiau yn eu gwersi cyfryngau neu ddisgrifio rolau gweithwyr yn y diwydiant gofal yn y gwersi iechyd a gofal.

Mewn ychydig o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr. Er enghraifft, yn y gwersi celf, mae disgyblion yn arbrofi â dyfrlliwiau ac mae hyn yn arwain at ddatblygu eu hyder a'u medrau i greu darluniau safonol. Yn y gwersi addysg gorfforol, mae llawer yn arddangos medrau creadigol llwyddiannus wrth berfformio cyfresi gymnasteg.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn ddysgwyr brwd a chyfrifol. Maent yn trafod eu gwaith yn aeddfed a hyderus. Maent yn frwdfrydig am eu hastudiaethau ac yn falch eu bod yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn ymateb i gwestiynau eu hathrawon yn estynedig a chyda geirfa soffistigedig. Cynigiant resymau ac esboniadau dilys ac maent yn gwneud cysylltiadau â'u dysgu blaenorol yn fedrus.

Mae disgyblion yn yr uned adnoddau arbenigol, 'Camau', yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol dros amser. Gwnânt hyn trwy ddysgu am fedrau bywyd pwysig, megis bwyta'n iach, golchi dillad, siopa a diogelwch

yn y gegin. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol drwy waith ymarferol difyr. Er enghraifft, wrth ddysgu am y system dreulio, maent yn modelu taith bwyd o'r geg trwy'r stumog a'r coluddyn gan wthio bwydydd gwahanol trwy bâr o deits.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn dweud nad ydynt yn cael eu heffeithio gan fwlio. Mae llawer yn mwynhau'r ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cefnogaeth arnynt gyda'u gwaith neu os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn elwa o'r cymorth academaidd a'r gefnogaeth emosiynol sydd ar gael iddynt trwy'r 'Hwb Bugeiliol' a'r 'Hwb Dysgu'. Er enghraifft, mae disgyblion penodol yn datblygu dycnwch a meddylfryd gadarnhaol wrth gydweithio â mentoriaid ac athrawon arbenigol ar raglenni penodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anawsterau ymddygiadol yn cyflawni'r amcanion yn eu cynlluniau cefnogaeth personol ac yn datblygu agweddau gwell at ddysgu dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn waraidd yn ystod cyfnodau egwyl a chinio. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac mae llawer yn gwneud defnydd o'r ardaloedd allanol eang i eistedd a chymdeithasu â'u ffrindiau.

Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon, yn setlo'n fuan i waith ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau mewn tasgau. Yn yr achosion gorau o gydweithio, mae disgyblion yn cynnal trafodaethau brwd mewn parau neu mewn grwpiau bach, er enghraifft wrth chwarae gêm 'tenis geiriau' i adnabod ansoddeiriau addas i ddisgrifio pobl ifanc yn eu harddegau.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth addas o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol, a lles emosiynol yn y gwersi lles a gwersi 'Prosiect'. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol fel pêl-droed, gymnasteg a phêl-fasged. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth fod yn aelodau o glybiau amrywiol megis y clwb darllen, clwb ffrindiau, a chlwb adeiladu modelau.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain buddiol trwy'r cyngor ysgol a'r fforwm dysgu. Dros amser, maent wedi cael dylanwad cadarnhaol ar wella ansawdd y cyfleusterau a'r ardal allanol ynghyd â chynyddu adnoddau digidol. Yn ogystal, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cyfrannu'n frwd at hyrwyddo materion cyfoes pwysig ar draws cymuned yr ysgol, fel cydraddoldeb, hawliau dynol a pharchu amrywiaeth, gan gynnwys ymwybyddiaeth o faterion LHDTC+.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed a chyfeillgar. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ag ymwelwyr ac yn rhannu eu barn yn hyderus. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynorthwyo staff i redeg clybiau chwaraeon. Fodd bynnag, nid yw disgyblion y chweched dosbarth o hyd yn manteisio ar eu statws fel y disgyblion hynaf i gyfrannu'n llawn at fywyd a chymuned yr ysgol. O ganlyniad, maent yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau cymdeithasol ac i gael profiadau buddiol wrth arwain a dylanwadu'n bositif ar ddisgyblion iau'r ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn meithrin perthynas waith gref ac adeiladol â'u disgyblion. Maent yn defnyddio strategaethau rheolaeth dosbarth effeithiol sy'n sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn cydymffurfio ac yn cydweithio'n effeithiol mewn gwersi. Gan amlaf, mae'r athrawon hyn yn gosod 'tasgau tanio' ysgogol ar ddechrau gwersi er mwyn gosod cyd-destun y wers, setlo'r disgyblion i weithio ac adolygu gwaith blaenorol yn llwyddiannus. Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynu pwrpasol er mwyn gwirio bod disgyblion yn deall y gwaith ac yn rhoi adborth unigol buddiol iddynt er mwyn eu helpu i symud ymlaen â'r dasg.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio tasgau neu weithgareddau sy'n adeiladu'n dda ar waith blaenorol ac yn datblygu dealltwriaeth a medrau disgyblion yn briodol. Drwyddi draw, mae'r gweithgareddau'n cynnig her addas sy'n caniatáu i ddisgyblion wneud cynnydd. Mae mwyafrif yr athrawon yn fodelau iaith da, yn rhoi esboniadau clir ac yn modelu atebion a therminoleg bynciol er mwyn helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei gyflawni.

Yn yr ychydig o achosion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer pob disgybl. Mae'r athrawon hyn yn frwdfrydig iawn am eu maes dysgu ac maent yn tanio diddordeb disgyblion yn y pwnc. Maent yn holi disgyblion yn gelfydd trwy gwestiynu treiddgar sy'n symbylu'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach ac ymestyn eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon hyn yn ymateb yn sydyn i gamddehongliadau disgyblion ac yn addasu'r addysgu yn fedrus i sicrhau cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion yn yr addysgu yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn cynllunio eu gwersi'n ddigon gofalus i sicrhau digon o her yn y gweithgareddau na galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd cryf. Nid yw'r athrawon yn holi cwestiynau digon treiddgar i annog y disgyblion i feddwl yn ddyfnach neu i ystyried safbwyntiau ehangach. Maent yn dueddol o ganolbwyntio'n ormodol ar gael disgyblion i gwblhau cyfres o dasgau yn hytrach nag ystyried beth sydd angen i'r disgyblion ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn aml yn gor-reoli'r dysgu, yn rhoi cyflwyniadau hir neu'n gosod amser rhy fyr i gwblhau tasgau. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion drafod neu gydweithio mewn parau a grwpiau bach. Nid yw ychydig o athrawon yn mynd i'r afael â chamgymeriadau ieithyddol disgyblion ac maent yn rhy barod i dderbyn ymatebion sy'n frith o eiriau Saesneg.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn amrywio o fewn ac ar draws adrannau. Yn yr esiamplau gorau, mae athrawon yn tynnu sylw disgyblion at gamgymeriadau, gan gynnwys gwallau iaith a sillafu, ac yn cynnig sylwadau gwerthfawr ac awgrymiadau buddiol ar sut i wella. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau darparu adborth ar waith disgyblion trwy ffurfiau digidol sy'n cynnwys modelu disgwyliadau o ran ansawdd a chynnwys. Serch hyn, nid yw'r adborth hwn bob tro'n dangos i ddisgyblion sut i wella'r gwaith. Ar y cyfan, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i adborth ysgrifenedig athrawon am eu gwaith.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol sy’n diwallu anghenion bron pob disgybl o gyfnod allweddol 3 hyd at gyrsiau'r chweched dosbarth. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol â darparwyr allanol i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion hyn, er enghraifft trwy gynnig cyrsiau gwallt a harddwch, peirianneg a gofal anifeiliaid. Yn y chweched dosbarth, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu dilyn cyrsiau o’u dewis. Mae’r ysgol yn ehangu ei darpariaeth wrth gydweithio’n effeithiol ag ysgolion a darparwyr allanol eraill, er enghraifft trwy'r cynllun ‘E-sgol’. Yn ogystal, caiff disgyblion penodol gyfleoedd gwerthfawr i ddilyn cyrsiau sy’n cyfrannu at ddatblygiad eu medrau bywyd fel cwrs y ‘Prince’s Trust’ a chyrsiau rheolaeth ariannol. Mae staff perthnasol yn cynnig cyngor defnyddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau addas yn unol â’u dyheadau gyrfa.

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu’r Cwricwlwm i Gymru ble mae medrau ac elfennau o addysgeg wrth wraidd y cynllunio. Mae’r ysgol wedi cynllunio ac arbrofi â gweithgareddau cwricwlaidd dros amser ac wedi adolygu eu heffaith yn bwrpasol. Yn sgil hyn, mae’r ysgol wedi datblygu rhaglen ‘Prosiectau’ ym Mlynyddoedd 7 ac 8 sy’n ddarpariaeth fuddiol i fodloni agweddau o’r cwricwlwm newydd. Mae’r rhaglen hon yn llwyddo i gefnogi pontio esmwyth o addysg gynradd i’r ysgol uwchradd. Mae’r gweithgareddau a'r tasgau yn llwyddo i danio dysgu disgyblion trwy adeiladu ar y dysgu o’r ysgolion cynradd, magu hyder a gwella medrau llafaredd disgyblion.

Mae gan yr ysgol adnodd trochi iaith gwerthfawr ar gyfer disgyblion sy’n dod o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae’r ddarpariaeth hon yn llwyddo i ddatblygu medrau iaith Gymraeg y disgyblion hyn a’u paratoi ar gyfer integreiddio’n llawn i fywyd yr ysgol ac i addysg cyfrwng Cymraeg erbyn diwedd Blwyddyn 8.

Mae’r cydlynydd medrau yn cydweithio’n bwrpasol ag athrawon allweddol i gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion trwy’r rhaglen ‘Prosiectau’ ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac 8. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llafar, meddwl, digidol a dysgu annibynnol. Er enghraifft, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion greu podlediad iechyd meddwl, dylunio gwefan i hyrwyddo miliwn o siaradwyr y Gymraeg a chynhyrchu fideo gyda throslais i gyflwyno ‘Fy Hunaniaeth’. Er bod cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ac, i raddau llai medrau rhifedd, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r medrau ar draws y pynciau wedi ei chydlynu’n strategol. O ganlyniad, mae anghysondeb yn y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae ymyraethau gan staff arbenigol yn yr Hwb Dysgu yn cefnogi disgyblion sy’n cael anawsterau i ddatblygu eu medrau sylfaenol llythrennedd a rhif yn llwyddiannus.

Mae agweddau o’r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cynnig profiadau dysgu i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol gwerthfawr i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa o’r ‘Prosiect’ gwleidyddiaeth ym Mlwyddyn 8 ac o ymweliadau gan wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam a’u gwaith ar droseddau cyllyll trwy brosiect ‘The Knife Angel’. Yn ogystal, mae agweddau buddiol ABCh yn cael eu cynnwys mewn lleiafrif o bynciau, er enghraifft ‘La Variété et la Difference’ ar amrywiaeth a gwahaniaeth yn Ffrangeg ac ymgyrch hawliau menywod yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw ABCh wedi’i chynllunio’n ddigon cydlynus a strategol i sicrhau darpariaeth

gynhwysfawr, gyson a chynyddol i ddisgyblion ym mhob blwyddyn, yn enwedig disgyblion hŷn yr ysgol.

Mae cyfleoedd priodol i hyrwyddo Cymreictod a defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Serch hyn, nid oes strategaeth ddigon pendant i gydlynu'r ddarpariaeth hon er mwyn grymuso a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu eu Cymreictod a defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a thu allan i wersi.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau a phrofiadau allgyrsiol buddiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn datblygu diddordebau disgyblion, er enghraifft clybiau jiu jitsu, ffotograffiaeth a garddio. Yn ogystal, trefnir ystod o deithiau deniadol fel teithiau preswyl i Lan Llyn i ddisgyblion Blwyddyn 7 a theithiau tramor i Wlad yr Iâ a gwledydd eraill.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn gymuned ofalgar sy'n blaenoriaethu lles disgyblion a staff mewn awyrgylch deuluol a chlòs. Mae tîm effeithiol o staff yn cydweithio'n gynhyrchiol ac effeithiol er mwyn sicrhau bod cefnogaeth wedi ei theilwra i fodloni anghenion unigol disgyblion.

Ers i ddisgyblion ddychwelyd yn llawn i'r ysgol yn dilyn cyfnod y pandemig, mae arweinwyr yn rhoi sylw sylweddol i hyrwyddo lles ac iechyd meddwl pob disgybl. Elfen nodedig o waith yr ysgol yw'r gefnogaeth gref a llesol a roddir i'r disgyblion mwyaf bregus drwy'r 'Hwb Bugeiliol'. Mae'r staff yn yr Hwb yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol perthnasol megis y gwasanaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (CAMHS) a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynnig cefnogaeth wedi ei phersonoli i ddisgyblion a'u teuluoedd. Nodwedd gref arall yw'r ffordd mae'r ysgol yn llwyddo i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol dwys neu'n absennol yn aml iawn trwy sicrhau eu bod yn parhau â'u haddysg tan ddiwedd Blwyddyn 11.

Mae'r 'Hwb dysgu' yn darparu cefnogaeth lwyddiannus i ddisgyblion i oresgyn yr hyn sy'n eu rhwystro rhag dysgu. Mae'r tîm angerddol o staff yn adnabod y disgyblion a'u cefndiroedd yn dda ac yn trefnu cefnogaeth bersonol i bob unigolyn sydd ei hangen. Mae disgyblion yn gallu cyfeirio eu hunain i'r gwasanaeth hwn neu gall athrawon a rhieni gyfeirio unigolion sydd angen cymorth pellach. Darperir sesiynau ymyrraeth effeithiol i wella medrau sylfaenol disgyblion ac mae arweinwyr yn olrhain eu cynnydd yn rheolaidd.

Agwedd gref o waith yr ysgol yw'r gefnogaeth i'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cynnig arweiniad cadarn ac yn sicrhau bod yr holl dîm yn defnyddio dull disgybl-ganolog wrth weithio. Trwy gydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr, maent yn darparu cefnogaeth sy'n ymateb i anghenion unigol y disgyblion. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau yn drylwyr ac yn addasu'r gefnogaeth yn ôl y gofyn. Mae'r gefnogaeth i'r disgyblion ag anawsterau'r sbectrwm awtistig sy'n mynychu uned adnoddau arbenigol 'Camau' yn nodwedd arbennig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o barch yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda.

Ceir gweithdrefnau clir er mwyn adnabod a delio ag unrhyw ymddygiad negyddol ac mae'r tîm bugeiliol yn monitro hyn yn gyson. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol disgyblion yn dda. Rhoddir ystod o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd cydraddoldeb, dangos empathi tuag at eraill a dathlu amrywiaeth, er enghraifft trwy ddiwrnodau penodol fel y diwrnod gwrth-hiliaeth.

Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy ychydig o fforymau fel y cyngor ysgol, y fforwm dysgu a'r fforwm newydd ABCh. Mae hyn wedi arwain at ddisgyblion yn cyfrannu at wella'r amgylchedd ffisegol a rhai gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at drafodaethau sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar eu profiadau dysgu. Nid yw disgyblion hŷn yn cael digon o gyfleoedd i arwain a chyfrannu'n gynhyrchiol at fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn briodol. Mae'r person dynodedig ar gyfer diogelu yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant cyson a pherthnasol ar agweddau pwysig a hanfodol o ddiogelu. O ganlyniad, maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i warchod lles plant a sicrhau eu diogelwch. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant diweddar ac nid oes trefniadau digon cadarn i rannu gwybodaeth berthnasol am ddiogelu gyda'r corff llywodraethol. Daeth nifer o faterion iechyd a diogelwch parthed adeilad a safle'r ysgol i sylw'r tîm arolygu. Mae'r pennaeth yn ymwybodol o'r rhain ac yn cydweithio â'r awdurdod addysg lleol i'w datrys. Bydd yr ysgol yn derbyn llythyr lles i dynnu sylw at yr holl faterion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo a monitro presenoldeb disgyblion. Mae'r presenoldeb wedi gwella mewn cymhariaeth â'r un cyfnod y llynedd ac mae'n cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd gweithgar a gofalgar sy'n rhoi o'i gorau i gefnogi lles disgyblion a staff yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar annog pob disgybl i ffynnu'n academaidd, yn greadigol ac yn bersonol. Mae hi'n rhoi pwyslais ar ddatblygu Ysgol Morgan Llwyd fel cymuned glòs a chefnogol ac mae hyn wedi arwain at gydweithio pwrpasol ymysg staff a disgyblion.

Cefnogir y pennaeth yn gadarn gan y dirprwy bennaeth a gweddill yr uwch dîm rheoli. Mae cydbwysedd priodol yn eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cydweithio'n agos a chynhyrchiol i lywio cyfeiriad strategol yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o weithio fel tîm ymysg staff yr ysgol, yn arbennig wrth ddatblygu gwaith yr 'Hwb Bugeiliol' ac yn fwy diweddar, yr 'Hwb Dysgu'.

Mae uwch arweinwyr yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn cynllunio ac addasu'r ddarpariaeth ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru a datblygu medrau disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 trwy waith gwerthfawr y 'Prosiectau'. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ofalus i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion trwy ddarpariaeth yr Hwb Bugeiliol a'r Hwb Dysgu a thrwy fentrau eraill addas. Er bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol trwy weithgareddau allgyrsiol, nid yw'r ysgol yn cynllunio hyn yn ddigon strategol. Yn ogystal, nid yw'r ysgol yn cydlynu datblygiad medrau disgyblion na phrofiadau ABCh ar draws yr ysgol yn ddigon gofalus.

Mae ystod ddefnyddiol o gyfarfodydd rheoli yn rhoi sylw i waith academaidd a bugeiliol yr ysgol. Trefnir cyfarfodydd rheolwr llinell pwrpasol rhwng aelodau o'r uwch dîm rheoli ac arweinwyr canol i drafod hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella o fewn yr adrannau. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn y modd y mae uwch reolwyr yn dwyn rheolwyr canol yn atebol trwy'r cyfarfodydd hyn. Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr canol ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u meysydd cyfrifoldeb. Mewn llawer o achosion, mae cyfarfodydd adran yn fuddiol, yn arbennig pan roddir cyfleoedd i staff gyd-graffu ar waith disgyblion. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac mae'r amcanion yn cyd-fynd â phrif flaenoriaethau'r ysgol ynghyd â chefnogi datblygiad proffesiynol a dyheadau personol staff. Mae'r pennaeth yn delio'n briodol â staff sy'n tanberfformio.

Mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w phrosesau cynllunio gwella. Bellach, mae ganddynt gyfnodau monitro cynnydd penodol yn y calendr hunanwerthuso a gwelliant. Mae arweinwyr yn cynnal ystod gynhwysfawr o weithgareddau sicrhau ansawdd priodol gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a chasglu barn disgyblion a staff. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan yn y prosesau hyn. Maent yn dechrau datblygu eu gallu i ddefnyddio canfyddiadau o weithgareddau monitro er mwyn gwerthuso'u gwaith. Er hyn, nid yw'r prosesau ar gyfer casglu gwybodaeth yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar ddatblygiad medrau disgyblion nac ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gysondeb a gweithdrefnau cydymffurfio yn hytrach nag effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae gorddibyniaeth ar weithdrefnau cydymffurfio yn rhwystro arweinwyr rhag cael darlun manwl gywir o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu.

Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol a'r prif flaenoriaethau gwelliant. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau hyn yn rhy eang ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon clir ar y prif faterion i fynd i'r afael â nhw. Nid yw'r gweithredoedd bob amser yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i ganolbwyntio ar agweddau penodol y mae angen eu gwella.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol. Rhoddir cyfleoedd eang i staff fynychu cyrsiau gan ddarparwyr allanol a rhannu arfer dda trwy gyfarfodydd a defnydd o wefan fewnol yr ysgol. Eto, nid yw'r datblygiad proffesiynol o hyd yn cysylltu'n ddigon agos â chanfyddiadau o weithgareddau hunanwerthuso.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n glir â rhieni. Mae gwefan yr ysgol yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr a chymorth buddiol i rieni, er enghraifft sut i helpu eu plentyn a gofyn am gymorth bugeiliol neu gymorth dysgu. Mae cyfleoedd addas i rieni rannu eu barn trwy arolygon barn a nosweithiau agored.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn angerddol am ei statws fel unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir. Mae strwythur addas o bwyllgorau a chyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth am waith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn hyddysg am rai agweddau o waith yr ysgol, gan gynnwys blaenoriaethau'r ysgol a rôl yr arweinwyr canol. Maent yn datblygu yn eu rôl fel cyfaill beirniadol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt drosolwg digon cadarn o agweddau ar waith yr ysgol fel eu rôl i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ogystal, nid ydynt wedi cael hyfforddiant diweddar ar agweddau pwysig megis diogelu plant.

Mae’r llywodraethwyr, y pennaeth a’r rheolwr busnes yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, i gefnogi anghenion disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 29/12/2022